# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**


Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2034A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni chymerir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 6

Rheoli adnoddau ariannol 15

Cynllunio gweithredol 22

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch wedi'i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitri ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a'r rheiny'n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio'r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith[1] yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Mae ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio strategol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

[1] Cafodd y broses o gyflawni ein gwaith ei chydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm archwilio mewnol o lywodraethu sy'n cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Mae'r argymhellion blaenorol i'w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019.

# Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da trwy gydol pandemig COVID-19 a'i fod wedi datblygu ei gynlluniau gweithredol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae arloesi a dysgu wedi cael eu gwreiddio drwy'r trefniadau llywodraethu diwygiedig i gyd i alluogi adferiad i ddigwydd ac i gyflymu ei weledigaeth strategol, ond mae pwysau gweithredol a strwythurol yn parhau i gyflwyno heriau ar gyfer y sefyllfa ariannol na ellir ond ymdrin â hwy trwy wireddu'r weledigaeth strategol.

7 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio o fewn fframweithiau diwygiedig i gyflawni dyletswyddau'r Bwrdd a chynnal trefniadau llywodraethu da trwy gydol pandemig COVID-19. Gan ymateb yn gyflym i gyfarfodydd rhithwir, mae'r Bwrdd wedi parhau i gynnal ei fusnes mewn ffordd agored a thryloyw. Mae trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi bod o gymorth i wneud penderfyniadau'n gyflym a chraffu'n effeithiol, gyda ffocws ar ddysgu a gwelliant wedi'i wreiddio. Mae systemau sicrwydd wedi cael eu cynnal hefyd, gyda ffocws cryf ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol, a waethygwyd gan effaith COVID-19, ond mae'n ceisio adfer y sefyllfa ariannol dros y tymor hwy. Gyda diffyg o £34.9 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, ni chyflawnodd ei ddyletswyddau ariannol ac mae'n rhagweld diffyg o £25 miliwn ar gyfer 2020-21. Heb gyllid ychwanegol, mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn debygol o fod yn fwy o lawer o ganlyniad i COVID-19. Yn ystod y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal rheolaethau ariannol effeithiol serch hynny, ac mae adroddiadau cynhwysfawr wedi bod o gymorth i graffu'n amserol ar y sefyllfa ariannol a darparu sicrwydd amserol yn ei chylch.

9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau gweithredol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gyda hynny'n cael ei ategu gan ddull o fodelu data sy'n datblygu'n gyflym ac yn dilyn arweiniad rhanddeiliaid. Mae'r holl wasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal gyda dull pwyllog a hyblyg o adfer gwasanaethau rheolaidd. Mae datrysiadau rhanbarthol yn cael eu hystyried ac mae trefniadau yn eu lle i ddysgu o'r pandemig ac i gyflymu'r broses o gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hynod ymrwymedig i les staff, er ei fod yn cydnabod bod staffio'n dal i fod yn risg sylweddol os ceir ail frig COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal trosolwg a chraffu da ar berfformiad a darparu ac mae'n ail-drefnu'r modd yr adroddir ar berfformiad mewn ymateb i'r gofynion newidiol sy'n deillio o'r pandemig.

# Argymhellion

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith yn 2020 ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella drwy'r adroddiad hwn. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y rhain ac argymhellion ers 2019 sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith fel rhan o'n gwaith yn 2021

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig.

12 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da trwy gydol y pandemig.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Mae'r Bwrdd wedi addasu ei drefniadau llywodraethu i sicrhau tryloywder cyhoeddus, prosesau penderfynu ystwyth, a chraffu ac arweinyddiaeth effeithiol trwy gydol y pandemig

##### Mae'r Bwrdd wedi parhau i gynnal ei fusnes mewn ffordd agored a thryloyw, gan addasu'n gyflym i gyfarfodydd rhithwir

13 Mae gan y Bwrdd hanes o gynnal cyfarfodydd yng ngŵydd y cyhoedd ac o ddefnyddio cyfleusterau allanol i'w gwneud yn bosibl i gyfarfodydd gael eu ffrydio'n fyw. Yn sgîl gofynion cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar ymgynnull yn gyhoeddus, nid yw'r Bwrdd wedi gallu cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus yn ystod y pandemig. Roedd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd weithio gartref lle'r oedd yn bosibl, ac o ganlyniad, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflymu'r broses o gyflwyno Office 365 a Microsoft Teams ac fe symudodd yn gyflym i gynnal cyfarfodydd rhithwir. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd ddarparu mynediad at Microsoft Teams ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned i alluogi aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned yntau i gyfranogi yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

14 Mae moesau cyfarfodydd rhithwir wedi cael eu mabwysiadu, gyda'r gallu i gyflawni swyddogaethau o fewn meddalwedd yn cael ei ddefnyddio gan aelodau'r Bwrdd i godi cwestiynau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Trwy roi offer TG ychwanegol fe lwyddwyd i ddatrys rhai heriau cychwynnol o ran technoleg ac er bod rhai mân faterion o ran cysylltedd yn dal i fodoli, mae'r broses o bontio i gyfarfodydd rhithwir wedi mynd yn dda.

15 O'r dechrau un, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn glir gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r newidiadau yr oedd angen eu rhoi ar waith i gyfarfodydd y Bwrdd trwy ei wefan a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfle i'r cyhoedd godi cwestiynau cyn y cyfarfodydd yn uniongyrchol gyda'r Cadeirydd, argaeledd papurau ar wefan y Bwrdd Iechyd a diweddariadau byw ar y cyfryngau cymdeithasol wedi parhau gyda chamau ychwanegol yn cael eu cymryd i drefnu bod y cofnodion drafft ar gael o fewn un wythnos i'r cyfarfod.

16 Fe gynyddodd mynychder cyfarfodydd y Bwrdd hefyd fel eu bod yn cael eu cynnal yn fisol i ddarparu mwy o dryloywder cyhoeddus o ran ei ymateb i'r pandemig, a'r

Bwrdd Iechyd oedd y cyntaf yng Nghymru i recordio ei gyfarfodydd ac yna lanlwytho'r recordiadau i'w wefan a'i sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol o fewn 48 awr. Yn fwy diweddar, dechreuodd y Bwrdd Iechyd ffrydio cyfarfodydd yn fyw gyda'r cyfleuster i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau yn ystod y cyfarfod. Mae'r camau gweithredu hyn oll yn adlewyrchu ffocws parhaus y Bwrdd ar gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw.

## Mae trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi cefnogi prosesau penderfynu cyflym a chraffu effeithiol, ac wrth ystyried i ba raddau y mae trefniadau wedi cael eu cynnal, mae hynny'n adlewyrchiad o aeddfedrwydd y Bwrdd

17 Rhoddodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun digwyddiadau mawr ar waith ac fe sefydlodd strwythur Gorchymyn a Rheoli cadarn ym mis Mawrth 2020. Dan arweiniad y Prif Weithredwr, cyfarfu'r Drefn Reoli Aur dair gwaith yr wythnos gyda chyfle i gynyddu/lleihau mynychder i adlewyrchu brigau COVID-19. Roedd seilwaith eglur a oedd yn cynnwys grŵp Arian (tactegol) a grwpiau gweithredol Efydd atodol, ynghyd â Chanolfan Reoli a nifer o gelloedd cynghori, yn tanategu'r Drefn Reoli Aur.

18 Bu'r Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfodydd Aur yng nghymhwyster sylwedydd. Cafodd Dangosfwrdd dyddiol sy'n rhoi adroddiad ar y sefyllfa ei roi ar waith yn gyflym i ddarparu diweddariad statws ar draws ystod o ddangosyddion a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 gan gynnwys capasiti o ran gwelyau ac offer i oleuo prosesau penderfynu. Trefnwyd fod y Dangosfwrdd ynghyd â phapurau'r Drefn Aur a'r grŵp Arian ar gael i holl aelodau'r Bwrdd, gydag adroddiad ffurfiol yn cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd bob mis. Cafodd maint y Bwrdd ei leihau i ddechrau oherwydd cyfyngiadau Skype, gan gwrdd â chworwm yn unig ym mis Mawrth 2020 ond yn dilyn pryderon a fynegwyd gan y Cadeirydd bod hyn yn cyfyngu ar y cyfraniadau gan yr holl Aelodau Annibynnol, cyflymwyd y gefnogaeth TG, ac ailddechreuwyd cyfarfodydd ag aelodaeth lawn o fis Ebrill ymlaen.

19 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau pwyllgorau'r Bwrdd yn ystod COVID-19. Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, fe gymeradwyodd y Bwrdd drefniadau diwygiedig i gefnogi prosesau penderfynu ystwyth a lleihau biwrocratiaeth ddiangen yng nghyd-destun cynnal trefniadau llywodraethu da. Gyda hynny'n cael ei hwyluso gan amrywiad dros dro i'w Reolau Sefydlog, fe gytunodd y Bwrdd ar newidiadau a oedd yn cynnwys:

- symleiddio agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgor i'w gwneud yn 'ysgafn o ran papurau' a chynyddu cyfarfodydd y Bwrdd fel eu bod yn cael eu cynnal yn fisol, gan ddisodli cyfarfodydd datblygu a seminarau'r Bwrdd a oedd yn cael eu cynnal bob deufis;
- cytuno ar isafswm o eitemau ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd;
- diwygio trefniadau pwyllgorau gyda:

  - mynychder y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael ei gynyddu fel ei fod yn cwrdd yn fisol i'w gwneud yn bosibl i faterion sy'n gysylltiedig â COVID-19 gael eu hystyried yn rheolaidd.
  - y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Sicrhau Iechyd a Diogelwch a oedd newydd ei sefydlu'n cael eu cynnal yn ôl yr arfer ond gydag agendâu â ffocws mwy penodol.
  - pwyllgorau eraill yn cael eu hatal dros dro gyda chyfrifoldebau'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad a oedd newydd gael ei ffurfio'n cael eu hystyried trwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau eraill.
- cytuno ar drefniadau i holl Gadeiryddion Pwyllgorau gwrdd â'r Swyddog(ion) Gweithredol arweiniol bob pythefnos, ac i arbenigedd a chysylltiadau Aelodau Annibynnol fod ar gael i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod y pandemig.
- cytuno ar egwyddorion o ran ffyrdd o weithio ac egwyddorion llywodraethu.
- manylu ar y broses ar gyfer gweithredu gan y Cadeirydd ar faterion brys.
- sefydlu Grŵp Adfer, Ailfeddwl ac Arloesi (a ailenwyd wedyn yn Grŵp Adfer, Dysgu ac Arloesi) i ganolbwyntio ar fynd allan o'r pandemig, a Phanel Moeseg i ddarparu mewnbwn, cyngor ac addysg moeseg ar draws y Bwrdd Iechyd.
- cytuno ar ystod o gyfathrebiadau gan gynnwys bwletinau beunyddiol ar gyfer yr holl staff, papurau briffio wythnosol i'r holl Aelodau Annibynnol, a galwadau wythnosol gyda'r holl bartneriaid allweddol gan gynnwys ACau/ASau lleol, arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol, ac arweinwyr Cynghorau Iechyd Cymuned. Fe barhaodd prif swyddogion y Cynghorau Iechyd Cymuned a chynrychiolwyr eraill Cynghorau Iechyd Cymuned i fynychu'r Bwrdd a phwyllgorau'n rheolaidd hefyd.

20 Cafwyd presenoldeb llawn yng nghyfarfodydd byrrach y Bwrdd a phwyllgorau, a phan oedd y pandemig yn ei anterth roedd y cyfarfodydd hynny'n canolbwyntio ar faterion a oedd yn bwysig i'r busnes a'r rheiny'n cael eu hategu gan agendâu a phapurau wedi'u symleiddio. Mae gwybodaeth i ategu penderfyniadau a rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd, cyllid a pherfformiad wedi bod yn gadarn ac yn amserol, gan gynnwys datblygu Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig (IPAR) sy'n cynnwys ystod o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae materion nad ydynt o'r pwys mwyaf wedi cael eu gohirio'n briodol tan amser mwy addas ac wedi'u dogfennu'n glir. Fe welsom hefyd graffu a herio effeithiol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

21 Bu defnydd cyfyngedig o weithredu gan y cadeirydd ond lle defnyddiwyd hynny, ceir log penderfyniadau, tystiolaeth o graffu gan y Bwrdd a chadarnhau wedyn gan y Bwrdd. Mae logiau penderfyniadau a gweithredu wedi cael eu cynnal drwy'r strwythur Reoli i gyd hefyd ynghyd â log penderfyniadau penodol sy'n ymwneud â gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'r Ganolfan Reoli hefyd wedi cynnal log o holl ganllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru.

22 Ochr yn ochr â’r strwythur Gorchymyn a Rheoli, mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn defnyddio’i Grŵp Cyflawni Iechyd a Gofal Cymdeithasol, grŵp a sefydlwyd yn 2019 i roi cymorth i gyflawni ei Strategaeth Iechyd a Gofal[3]. Roedd y grŵp yn cynnwys aelodaeth o blith y tri awdurdod lleol ac fe’i defnyddiwyd i gynnal deialog agos gyda’r awdurdodau lleol yn ystod y pandemig. Trwy’r Grŵp, mae’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda’r tri awdurdod lleol i ailddefnyddio cyllid wedi’i neilltuo megis y Gronfa Gofal Integredig (ICF)[4], cydweithio i ystyried opsiynau ar gyfer ysbytai maes a datblygu ymateb ar y cyd i gefnogi cartrefi gofal. Mae’r grŵp hwn wedi cael ei ddirwyn i ben ers hynny a’i ddisodli â’r Tîm Gweithredol Integredig ar y Cyd a sefydlwyd yn flaenorol i gefnogi trefniadau’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae cynrychiolwyr o’r tri awdurdod lleol wedi’u cynnwys mewn nifer o’r grwpiau Efydd hefyd, er enghraifft y grŵp sy’n canolbwyntio ar y gymuned.

23 Mae’n amlwg bod y strwythur Gorchymyn a Rheoli a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd wedi gweithio i gefnogi prosesau penderfynu ystwyth yn wyneb y pandemig. Fodd bynnag, mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal busnes ei Fwrdd a phwyllgorau i raddau sylweddol sydd y tu hwnt i’r hyn a oedd yn ofynnol yn ôl y canllawiau. Ac eithrio’r grwpiau Efydd (heb gynnwys Efydd Acíwt) a chelloedd cynghori, mae tîm llywodraethu’r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwasanaethu’r holl strwythurau, ac mae’r tîm Gweithredol wedi bod yn gweithio’n galed i ddarparu’r wybodaeth yr oedd ei hangen i gefnogi craffu a sicrwydd parhaus ar draws yr ystod eang o bwyllgorau a grwpiau sydd wedi bod yn gweithredu. Dylid canmol y Bwrdd Iechyd am ei ymdrechion i sicrhau llywodraethu da yn ystod y pandemig, sy’n adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol y Bwrdd. Fodd bynnag, os ceir ail frig dylai’r Bwrdd ystyried a fyddai’n gallu cynnal yr un lefel o fusnes gan y Bwrdd a phwyllgorau.

## Mae diwygiadau i rai cyfnodau dal swydd a chynlluniau dirprwyo eglur ar gyfer swyddogaethau gweithredol wedi sicrhau cydnerthedd a sefydlogrwydd y bwrdd yn ystod pandemig COVID-19

24 Yn ystod y pandemig, roedd cyfnodau dal swydd nifer o Aelodau Annibynnol i fod i ddod i ben. Wedyn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail dymor ar gyfer yr Is-gadeirydd am gyfnod o bedair blynedd, ac estyniad o un flwyddyn ar gyfer yr Aelod Annibynnol (cymuned), yr Aelod Annibynnol (cyllid), yr Aelod Annibynnol (awdurdod lleol) a'r Aelod Cyswllt, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

25 Fel rhan o’r trefniadau Rheoli, fe gynhaliodd y Cadeirydd ddeialog reolaidd gyda’r Is-gadeirydd a chafodd trefniadau trydydd a phedwerydd dirprwy eu rhoi ar waith rhag ofn na fyddai’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd ar gael. Mabwysiadwyd trefniadau

[3] **Canol a Gorllewin Cymru Iachach – Cenedlaethau’r Dyfodol yn Byw’n Dda**

[4] Defnyddiwyd y Gronfa Gofal Integredig fel mesur dros dro i ymateb i’r pandemig. Cafodd yr arian hwn ei ddisodli’n ddiweddarach gan gyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19 a chafodd y Gronfa Gofal Integredig ei hadfer.

tebyg ar gyfer y Prif Weithredwr. Cymhwyswyd trefniadau parhad busnes arferol ar gyfer gweddill y tîm Gweithredol gyda'r dirprwyon ail lefel yn cael eu defnyddio pan oedd absenoldebau'n digwydd.

26 Ers mis Mehefin 2020, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid wedi bod yn darparu goruchwyliaeth a chymorth parhaus ar gyfer y timau sy'n adrodd ar gynllunio a gwybodeg.

27 Wrth i'r Bwrdd Iechyd symud i mewn i gyfnod ailosod ac adfer y pandemig, mae'r Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol yn gadael i ymgymryd â rôl newydd. Mae'r swydd hon yn cael ei thynnu allan o'r strwythur sefydliadol, gyda rolau a chyfrifoldebau presennol yn cael eu hailddyrannu ar draws nifer o swyddi yn y Tîm Gweithredol o fis Awst 2020 i ategu eu cyfrifoldebau portffolio ehangach. Yr eithriad yn hyn o beth yw cyfathrebu, a fydd yn symud i swydd Ymgysylltu a Chyfathrebu newydd a fydd yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Weithredwr yn yr hydref. Hefyd, mae'r rôl Cyfarwyddwr Cyllid a oedd yn un am gyfnod penodedig wedi cael ei gwneud yn barhaol erbyn hyn.

28 Mae'r holl drefniadau hyn a'r diwygiadau i gyfnodau dal swydd wedi helpu i ddarparu Bwrdd sefydlog a chydlynol yn ystod y pandemig ac wrth symud i mewn i'r cyfnod adfer mwy hirdymor.

## Mae'r Bwrdd wedi gwreiddio ffocws ar ddysgu a gwella yn llawn o fewn ei drefniadau llywodraethu

29 Yng nghamau cynnar y pandemig, fe wnaeth y Prif Weithredwr fynychu'r strwythur Gorchymyn a Rheoli mewn modd rhithwir am gyfnod byr fel sylwedydd. Rhoddodd hyn gyfle iddo fyfyrio ac fe esgorodd ar gyfleoedd i wneud mân addasiadau ar unwaith i'r ffordd yr oedd y strwythur yn gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys diwygio aelodaeth y grwpiau Aur, Arian ac Efydd a oedd yn bodoli ac alinio cyfrifoldebau Gweithredol yn ystod y pandemig. Yn fwy eang, mae gweithrediad y strwythur Gorchymyn a Rheoli wedi bod yn cael ei adolygu'n gyson trwy'r Tîm Gweithredol gydag amlder cyfarfodydd yn cael ei leihau, grwpiau Efydd yn cael eu dirwyn i ben a chelloedd cynghori newydd yn cael eu mabwysiadu i fynd i'r afael â chyfnodau newydd y pandemig, er enghraifft Iechyd y Cyhoedd, gan gynnwys Profi, Olrhain, Diogelu a Chadw Pellter Cymdeithasol.

30 Mae'r trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi bod yn cael eu hadolygu'n gyson hefyd gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd, gyda mewnbwn gan aelodau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd a phwyllgorau wedi dechrau cynnal ffocws 'busnes fel arfer' llawer ehangach wrth i frig y pandemig gilio. Ym mis Mehefin 2020, cyfarfu Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad am y tro cyntaf ac adferwyd y pwyllgorau a oedd wedi cael eu hatal dros dro. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn mynd cael eu cynnal bob deufis unwaith eto o fis Medi 2020. Mae cynlluniau gwaith pwyllgorau wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac eitemau mewn logiau gweithredu a ohiriwyd yn cael eu hail-amserlennu.

31 Ym mis Ebrill 2020, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp Adfer, Dysgu ac Arloesi fel a oedd wedi'i nodi yn ei drefniadau llywodraethu diwygiedig. Adnabu'r grŵp hwn enghreifftiau o arloesi ac arferion i'w cadw wrth symud i mewn i'r cyfnod adfer a'r tu hwnt. Roedd ffocws y grŵp ar y tymor byr i ddechrau, ac yna gwelodd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd gyfle i'r grŵp arwain ar arloesi a dysgu yn y tymor hwy, gan gydnabod y gydberthynas uniongyrchol â'r agenda drawsnewid fwy hirdymor a nodir yn Strategaeth Iechyd a Gofal y Bwrdd Iechyd. Cafodd y grŵp ei ddisodli wedyn gan Grŵp Llywio Trawsnewid, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, ym mis Mehefin 2020. Trwy'r grŵp, mae'r Bwrdd wedi dynodi ei fwriad i:

- gadw arferion gweithio rhithwir, agendâu â ffocws penodol a chyfarfodydd 'sy'n ysgafn o ran papurau';
- cadw Canolfan Reoli fel hwb canolog ar gyfer holl ganllawiau Llywodraeth Cymru a man cyswllt ar gyfer yr holl staff ac aelodau'r cyhoedd; a
- mabwysiadu'r dull 'sut' a gymhwyswyd i'r strwythurau Arian ac Efydd ar draws elfennau gweithredol y Bwrdd Iechyd i hybu grymuso a pherchnogaeth leol; a mabwysiadu'r dull strategol 'beth a pham' a gymhwyswyd i'r Drefn Reoli Aur i'r Bwrdd.

32 Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hi'n glir hefyd y byddai'n cadw'r Panel Moeseg a sefydlwyd fel rhan o'r drefn Gorchymyn a Rheoli. Mae'r Bwrdd hefyd wedi adnabod yr angen i ddarparu llawer mwy o ffocws ar y grŵp Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a chan hynny fe gyflwynodd y Cadeirydd argymhelliad i sefydlu Grŵp Cynghori'r Bwrdd ar Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o fis Gorffennaf 2020 ymlaen. Wrth gymeradwyo'r Grŵp Cynghori, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth hefyd i bresenoldeb gan Is-gadeirydd y Grŵp Cynghori yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

## Systemau sicrwydd

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal systemau sicrwydd yn ystod y pandemig gyda ffocws cryf ar ansawdd a diogelwch

#### Fe addasodd y Bwrdd Iechyd ei system rheoli risgiau yn ystod y pandemig

33 Rydym wedi nodi'n flaenorol bod gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd wedi datblygu'n dda ac a oedd i fod i gael ei ddiweddaru i roi cymorth i weithredu strategaeth y Bwrdd Iechyd o 2020 ymlaen, gydag adolygiad o'r fframwaith rheoli risg i fod i gael ei gynnal yn ddiweddarach yn 2020. Ar adeg effaith COVID-19 ym mis Mawrth 2020, roedd trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ochr yn ochr ag amcanion cynllunio newydd.

34 Ym mis Ebrill 2020, fel rhan o ddiwygio'i drefniadau Llywodraethu, ystyriodd y Bwrdd bapur a oedd yn nodi newidiadau i'r ffordd y byddai risgiau gweithredol a chorfforaethol yn cael eu rheoli yn ystod y pandemig. Cafodd tair risg gorfforaethol newydd a oedd yn ymwneud â COVID-19 eu nodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyda sicrwydd yn cael ei ddarparu trwy'r Drefn Reoli Aur. Cafodd y cyfrifoldeb am adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei gadw gan y Bwrdd, ond cynyddwyd amlder yr adolygiadau fel eu bod yn cael eu cynnal yn fisol, gydag adolygiad gan y tîm Gweithredol yn cael ei gynnal cyn pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Dyrannwyd y cyfrifoldeb am oruchwylio'r holl risgiau ansawdd a diogelwch i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, gyda'r cyfrifoldeb am oruchwylio risgiau ariannol yn cael ei ddyrannu i'r Pwyllgor Cyllid. Arhosodd y cyfrifoldeb am oruchwylio'r risgiau sy'n weddill gyda'r Bwrdd nes byddai'r pwyllgorau a ataliwyd dros dro'n cael eu hadfer. Ar yr adeg honno, cytunwyd na fyddai'r Bwrdd yn diwygio'i barodrwydd i dderbyn risg ond y byddai'n ei adolygu'n gyson.

35 Cafodd adolygiadau gweithredol o berfformiad eu hatal dros dro hefyd gyda mwy o gyfrifoldeb i Gyfarwyddwyr Gweithredol oruchwylio risgiau gweithredol yn uniongyrchol gyda thimau gweithredol gan ddefnyddio'r Modiwl Risgiau Datix. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl perchnogi risgiau ar lefel leol, gyda sicrwydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd ynghylch camau gweithredu a oedd yn cael eu cymryd trwy'r strwythur Gorchymyn a Rheoli a'r strwythurau pwyllgorau. Mae log risgiau COVID-19 penodol yn ei le mewn perthynas â risgiau ansawdd a diogelwch, yr adroddir arno wrth y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

36 Mae adolygiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i fod i gael ei gynnal yn yr hydref, a hwnnw'n cael ei oleuo gan waith y Grŵp Llywio Trawsnewid a'r broses o roi strategaeth y Bwrdd Iechyd ar waith.

## Mae'r Bwrdd wedi cynnal ffocws cryf ar ansawdd a diogelwch yn ystod y pandemig, ond cymerwyd camau gweithredu i gryfhau sicrwydd ynghylch materion y gweithlu

37 O'r dechrau un, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal ffocws parhaus ar ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion a'u teuluoedd yn ystod y pandemig, trwy gynyddu amlder y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Fe alluogodd hyn y Bwrdd i gadw golwg ar faterion craidd ansawdd, diogelwch a phrofiad, yn ogystal â bod â mwy o ffocws ar effaith COVID-19 ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae'r cyfarfod bob pythefnos rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Gweithredol Arweiniol hefyd wedi rhoi cyfleoedd i adnabod materion y mae angen eu huwchgyfeirio.

38 Mae'r rhan fwyaf o'r gofynion a oedd wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer craffu ar ansawdd yn ystod y pandemig wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar faterion allweddol ar agendâu megis Gweithio i Wella, atal a rheoli

heintiau, a chydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) hefyd wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig, ynghyd â gofynion adrodd blynyddol ac ystyriaeth reolaidd i risgiau. Mae cyfarfodydd ychwanegol y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd wedi ei gwneud yn bosibl cael trafodaethau sy'n mynd at wraidd y mater am feysydd lle ceir risgiau penodol mewn perthynas â COVID-19 megis yr effaith ar driniaethau canser, ac argaeledd Cyfarpar Diogelwch Personol a meddyginiaethau gofal critigol. Darperir adroddiad manwl ar COVID-19 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad hefyd sy'n tynnu sylw at y meysydd allweddol yn y cynlluniau gweithredol chwarterol ac yn arbennig adfer gwasanaethau hanfodol, a blaenoriaethu cleifion yn glinigol.

39 Lle nad yw eitemau a oedd wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru wedi cael eu hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ystod y pandemig, maent naill ai wedi cael sylw mewn rhan arall o strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd neu wedi cael eu hystyried fel rhan o gynllun gwaith y Pwyllgor. Er enghraifft:

- mae trefniadau rhyddhau diogel ac amserol, gan gynnwys trefniadau profi ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned, yn cael eu hystyried gan y grŵp Efydd ar gyfer y gymuned, gan fwydo i fyny trwy'r strwythur Gorchymyn a Rheoli i'r Drefn Reoli Aur a'r Bwrdd.
- mae diweddariadau manwl ar archwilio clinigol ac adolygiadau o farwolaethau wedi'u hamserlennu ar gyfer pwyllgor mis Awst, er bod diweddariadau ar lafar wedi cael eu darparu am archwilio clinigol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi atal yr holl archwiliadau clinigol cenedlaethol dros dro, mae tîm archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd wedi gallu parhau i gasglu data ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol yn ystod y pandemig yn ogystal â chefnogi rhai archwiliadau clinigol y cytunwyd arnynt yn lleol.

40 I gefnogi'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal seilwaith ategol y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i raddau helaeth. Ar wahân i un cyfarfod, mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol wedi cwrdd, gan ddarparu sicrwydd i fyny o'r cyfarwyddiaethau ynghylch materion ansawdd, er bod presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn o blith cyfarwyddiaethau wedi bod yn amrywiol, sy'n ddealladwy yn ystod y pandemig. Mae'r grwpiau Diogelu, Atal a Rheoli Heintiau, a Rheoli Meddyginiaethau wedi bod yn cael eu cynnal ac fel a nodir ym **mharagraff 30**, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu ei Is-bwyllgor Gwrando a Dysgu newydd. Er ei fod wedi'i atal dros dro, cynhaliodd y grŵp Arfer Clinigol Effeithiol gyfarfod interim hefyd i drafod nifer o faterion brys cyn cael ei ddiddymu. Cafodd yr Is-bwyllgor Ymchwil a Datblygu ei atal dros dro hefyd ond fel cyfrannwr gweithredol i dreialon COVID-19 rhyngwladol a chenedlaethol, adferwyd yr is-bwyllgor hwn ym mis Gorffennaf.

41 Ar lefel weithredol, cafodd rhai cyfarfodydd ansawdd a diogelwch eu hatal i ddechrau ond maent wedi cael eu hailgychwyn ers hynny. Fodd bynnag, mae'r Panel Ansawdd newydd wedi cael ei gynnal, dan arweiniad y Cyfarwyddwr

Gweithredol ar gyfer Nyrsio, trwy gydol y pandemig i ystyried materion ansawdd penodol. Cyn effaith COVID-19, roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad blaenorol ar drefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol, ond mae newidiadau i gryfhau ac, yn arbennig, safoni'r trefniadau ar draws cyfarwyddiaethau wedi cael eu hatal am y tro.

42 Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu diwygiedig, mae aelodau'r Bwrdd yn cael yr adroddiad dyddiol ar y sefyllfa sy'n cynnwys ystod o ddangosyddion ansawdd gan gynnwys argaeledd cyfarpar diogelwch personol, lefelau salwch staff, lefelau achosion a derbyn i ysbytai, capasiti gwelyau a chyfraddau marwolaethau. Yn fwy ffurfiol, mae'r Bwrdd hefyd yn cael diweddariad misol am ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19.

43 Fel rhan o fusnes rheolaidd, mae'r Bwrdd hefyd wedi parhau i gael ei Adroddiad Gwella Profiad Cleifion newydd sydd wedi cynnwys storïau cleifion, gyda'r eitem ar yr agenda sy'n ymwneud â storïau cleifion bellach wedi'i hadfer yn y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

44 Mae craffu ar draws yr agenda ansawdd a diogelwch yn dal i fod yn dda. Er bod ffocws yr ymateb i COVID-19 wedi bod ar ofal acíwt mewn ysbytai, mae dyfnder ac ehangder yr her wedi rhychwantu ystod eang o faterion gydag iechyd meddwl, anableddau dysgu a gofal sylfaenol yn feysydd allweddol y rhoddwyd sylw iddynt. Mae papurau'n darparu'r sicrwydd angenrheidiol ynghylch y trefniadau sydd ar waith, ond mae Aelodau Annibynnol yn gynyddol yn ceisio sicrwydd ynghylch deilliannau, y bydd angen ymdrin ag ef wrth i'r Bwrdd Iechyd ddechrau dod allan o'r pandemig.

45 Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu diwygiedig, daeth materion y gweithlu'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd yn dilyn atal y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad dros dro. Trwy bapurau'r Drefn Reoli Aur, mae Aelodau Annibynnol wedi bod yn cael eu briffio'n gyson ar ystod o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Mae grŵp Efydd sydd wedi'i neilltuo'n benodol i'r gweithlu wedi bod yn ei le yn ystod y pandemig ac mae diweddariad manwl am drefniadau wedi bod yn cael ei roi mewn cynlluniau gweithredol chwarterol. Fodd bynnag, yn ystod rhan gynnar yr epidemig, nid oedd diweddariad manwl ar gyfer y Bwrdd a oedd yn ymwneud yn benodol â'r gweithlu, er bod agweddau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad COVID-19 ehangach a thrwy adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad. Gan hynny, cynhaliwyd Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad eithriadol ym mis Mai i geisio sicrwydd ynghylch ystod o faterion, gan gynnwys y trefniadau a oedd ar waith i reoli staff a oedd yn wynebu risg. Darparwyd diweddariad ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai gydag argymhelliad i adfer y Pwyllgor. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad ym mis Mehefin 2020, darparodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol adroddiad sicrwydd manwl iawn. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y cymorth lles a oedd yn cael ei roi i staff yn ogystal â rhoi asesiad risg staff COVID-19 Cymru gyfan ar waith. Roedd Dangosfwrdd newydd ar y gweithlu i fod i gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad ym mis Awst.

### Defnyddiwyd dull cytbwys a chymesur o dracio argymhellion blaenoriaeth uchel

46 Fel rhan o'i ystyriaeth i ganllawiau Llywodraeth Cymru, cafodd papur manwl ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2020 o ran sut y byddai argymhellion gan gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio'n cael eu rheoli yn ystod y pandemig. Gan gydnabod yr angen i gynnal trefniadau llywodraethu da, roedd y papur yn nodi dull cytbwys a oedd yn amlygu cyfres o argymhellion blaenoriaeth uchel y byddai angen mynd i'r afael â hwy a'u tracio o hyd. Roedd y rhain yn perthyn i bedwar grŵp allweddol:

- chwe argymhelliad ar gyfer gwella ar unwaith gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC);
- hysbysiadau gorfodi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC);
- hysbysiadau gwella a thramgwyddau sylweddol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID); ac
- argymhellion blaenoriaeth uchel gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol, gan gynnwys rhai argymhellion blaenorol a ddeilliodd o'n gwaith Asesu Strwythuredig.

47 Gofynnwyd hefyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol adolygu'r holl argymhellion eraill ac asesu a ellid eu rhoi ar waith o fewn yr amserlenni arfaethedig, ac os na ellid, adnabod trefniadau interim i reoli'r risg ac amserlen ddiwygiedig.

48 Fel rhan o'i fusnes craidd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi cynnal goruchwyliaeth ar yr offeryn tracio archwiliadau yn ystod y pandemig, gan ganolbwyntio'i sylw ar yr argymhellion blaenoriaeth uchel. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd wedi parhau i gael adroddiadau archwilio mewnol terfynol i oleuo'r farn ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae wedi ceisio cynnal trosolwg ar faterion o ran rheolaethau allweddol a godwyd mewn adroddiadau archwilio blaenorol.

## Rheoli adnoddau ariannol

49 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

50 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol, a waethygwyd gan effaith COVID-19 ond ei fod wedi cynnal rheolaethau a phrosesau monitro ac adrodd ariannol effeithiol.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu diffyg ariannol, yr effeithir yn sylweddol arno yn awr gan COVID-19, ond mae'n cymryd camau i geisio adfer y sefyllfa dros y tymor hwy

#### Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol yn 2019-20 gyda diffyg diwedd blwyddyn o £34.9 miliwn

51 Yn ystod 2019-20 fe barhaodd y Bwrdd Iechyd i wario y tu hwnt i'w foddion gyda hynny'n arwain at ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £34.9 miliwn a diffyg cronnol dros dair blynedd o £139.7 miliwn, er bod hon yn sefyllfa well o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol[5,6]. Gan hynny, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y cyfnod o dair blynedd 2017-2020.

52 Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fwriad i gyflawni yn erbyn diffyg o £29.8 miliwn. Cytunwyd yn flaenorol ar gyfanswm rheoli diffyg o £25 miliwn gyda Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys diffyg sylfaenol a ddygwyd ymlaen o £47 miliwn. I gwrdd â'r cyfanswm rheoli diffyg a gytunwyd ar ei gyfer, nodwyd gofyniad i gyflawni gwerth £28.8 miliwn o arbedion. Roedd cynlluniau yn eu lle i gyflawni gwerth £18.4 miliwn o arbedion, gyda £18 miliwn wedi'u cyflawni, yr oedd £6.2 miliwn ohonynt yn rhai anghylchol. Yn ystod 2019-20, fe gynhaliodd proses unioni diffyg y Bwrdd Iechyd ffocws ar gyflawni mesurau effeithlonrwydd mewn gwasanaethau ond roedd diffyg o £10.4 miliwn yn dal i fod yn yr arbedion a oedd yn ofynnol.

53 Ar gyfer 2019-20, cynigiodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn yn ychwanegol i leihau'r diffyg arfaethedig i £15 miliwn ar yr amod bod y Bwrdd Iechyd yn cwrdd â'r cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno ar ddiwedd y flwyddyn. Ym mis saith, roedd yn amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn mynd i fethu â chwrdd â'r cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno ar ei gyfer, a chafodd y £10 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ei dynnu'n ôl. Fe arweiniodd pwysau gweithredol a oedd yn ymwneud yn bennaf â rheoli meddyginiaethau a gofal heb ei drefnu at ragweld diffyg mwy o £35 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Teimlwyd effaith fach o ganlyniad i COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ond cafodd hon ei gwrthbwyso i raddau helaeth gan danwariannau ar weithgarwch o ganlyniad i atal gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio ar yr un pryd.

[5] Roedd y sefyllfa alldro ar gyfer 2018-19 yn £35.4 miliwn a diffyg treigl dros dair blynedd o £154.4 miliwn.

[6] Yn dilyn cyhoeddiad gan y gweinidog ym mis Gorffennaf 2020, bydd y ddyled hanesyddol yn cael ei dileu gan Lywodraeth Cymru, ar yr amod bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd.

54 Fe gwrddodd y Bwrdd Iechyd â'i Derfyn Adnoddau Cyfalaf gyda thanwariant o £0.7 miliwn. Roedd cyfanswm y tanwariant yn £1.1 miliwn ond defnyddiwyd £0.4 miliwn i wrthbwyso costau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Methwyd â bwrw ymlaen â'r gwariant arfaethedig o £1.1 miliwn oherwydd effaith COVID-19, a dychwelwyd y tanwariant i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

55 Methodd y Bwrdd Iechyd â datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd gyda chynllun ariannol wedi'i fantoli y gellid ei gymeradwyo, gan fethu â chyflawni ei ail ddyletswydd statudol o ganlyniad. Mae'r Bwrdd wedi aros yn y categori Ymyriad wedi'i Dargedu[7], ac yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae wedi parhau i weithredu trefniadau cynllunio blynyddol mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru.

### Pennodd y Bwrdd Iechyd gynllun uchelgeisiol ar gyfer 2020-21 i gyflawni diffyg rhagamcanol llai o £25 miliwn, ond heb gyllid ychwanegol, bydd hwn gryn dipyn yn fwy o ganlyniad i COVID-19

56 Cafodd cynllun cytunedig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Ionawr 2020, ac eto ym mis Mawrth 2020. Roedd yn nodi diffyg arfaethedig o £25 miliwn a oedd yn seiliedig ar gyflawni gofyniad arbedion o £34.2 miliwn.

57 Roedd y cynllun ariannol yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb a gymhwyswyd yn 2019-20, er enghraifft darparu ar gyfer gwariant uwch ym maes rheoli meddyginiaethau a gofal heb ei drefnu. Roedd yn rhaid i'r cyfrifoldeb am y diffyg gael ei rannu ar draws y timau gweithredol hefyd i sicrhau perchnogaeth leol yn hytrach na chael ei gadw fel cyfrifoldeb canolog. Roedd fframwaith cyfleoedd newydd wedi cael ei roi ar waith hefyd sy'n tynnu ar ddata effeithlonrwydd megis fframwaith effeithlonrwydd yr Uned Cyflawni Ariannol i adnabod cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, yn ogystal â thynnu ar arfer da a chyfleoedd i symleiddio'r modd y dyrennir adnoddau.

58 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yn glir bod effaith pandemig COVID-19 bellach yn creu risg sylweddol ddigynsail i'r sefyllfa ariannol ar gyfer eleni, ac ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ym mis un, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau i gyflawni gwerth £5.6 miliwn o arbedion. Ym mis pedwar, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni arbedion o £0.7 miliwn yn unig, ac yntau'n ragweld y byddai'n cyflawni gwerth £3.4 miliwn o arbedion erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gadael diffyg o £30.8 miliwn, gan nodi bod effaith ariannol COVID-19 yn gorwedd y tu allan i'r costau sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun ariannol 2020-21.

59 Ym mis pedwar, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £108.8 miliwn. Roedd hyn yn welliant o'i gymharu â'r rhagolwg o £129.4 miliwn yn y mis blaenorol. Mae'r diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys diffyg gweithredol is o £20 miliwn. Mae'r diffyg o £88.8 miliwn sy'n weddill yn uniongyrchol gysylltiedig ag effaith COVID-19.

[7] Trefniadau Dwysàu ac Ymyrryd GIG Cymru, Mawrth 2014.

60 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £16.8 miliwn o gyllid COVID-19 hyd yma. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â ffocws ar gyflawni ei gynllun sylfaenol ac nid yw wedi tybio y bydd yn cael unrhyw gyllid pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod effaith llai o wariant ar ofal wedi'i gynllunio i wrthbwyso costau COVID-19, yn lleihau cyfraddau rhediadau ariannol i'r eithaf ac yn adolygu ei ragolygon yn gyson ochr yn ochr â chynlluniau gweithredol chwarterol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cwrdd â chostau parhaus COVID-19 heb gyllid ychwanegol sylweddol neu gynyddu ei ddiffyg arfaethedig.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei gynllun ariannol y tu hwnt i 2021 eto ond mae newidiadau yn ei drefniadau trawsnewid bellach yn dod â ffocws ar yr adferiad ariannol tymor hwy

61 I gefnogi'r broses gynllunio ar gyfer y cyfnod o 2020 ymlaen, fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2020-23. Roedd y cynllun hwn, a ddatblygwyd cyn effaith COVID-19, yn gyson â strategaeth y Bwrdd Iechyd ac yn nodi ei fwriadau i barhau i ganolbwyntio ar ofal iechyd seiliedig ar werthoedd a darbodus. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun yn nodi'r cynllun ariannol ar gyfer y cyfnod llawn o dair blynedd, gan ganolbwyntio dim ond ar 2020-21 i danategu cynllun blynyddol y flwyddyn gyfredol a gymeradwywyd yn ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru.

62 Cafodd Grŵp Adfer, Dysgu ac Arloesi'r Bwrdd Iechyd a sefydlwyd fel ran o'r strwythur Gorchymyn a Rheoli orchwyl yn wreiddiol i gynnal ffocws ar sut y byddai sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn cael ei hadfer yn y tymor byr. Mae'r newid ers hynny i'r Grŵp Llywio Trawsnewid yn golygu bod y grŵp yn canolbwyntio ar gyfleoedd ariannol i roi cymorth gydag adferiad yn y tymor hwy, gan gydnabod mai un o'r ffactorau allweddol yng ngallu'r Bwrdd Iechyd i gael adferiad ariannol fydd trawsnewid ei wasanaethau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn aelod o'r Grŵp Llywio Trawsnewid.

63 Erbyn hyn mae'r Grŵp Llywio Trawsnewid wedi disodli strwythur y Bwrdd Iechyd a sefydlwyd yn 2019 i arwain y broses o roi ei Strategaeth Iechyd a Gofal ar waith. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r diwygiad hwn ym mis Gorffennaf 2020 gyda'r Grŵp Llywio Trawsnewid bellach yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Galluogi Strategol a sefydlwyd fel rhan o strwythur cyflawni'r strategaeth iechyd a gofal hefyd. Mae'r Grŵp Galluogi Strategol yn dwyn ynghyd yr holl swyddogaethau galluogi, gan gynnwys cyllid, digidol a chaffael, sy'n ofynnol i wireddu'r weledigaeth strategol a'r adferiad y mae ei angen o ganlyniad i'r pandemig.

## Rheolaethau ariannol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal rheolaethau ariannol effeithiol trwy gydol y pandemig

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei reolaethau ariannol, ond mae angen gweithredu mwy hirdymor i leihau'r diffyg sylfaenol**

64 Yn ystod 2019-20, rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i KPMG i gynnal adolygiad manwl o faterion ariannol y Bwrdd Iechyd. Roedd adroddiad KPMG yn nodi dau ffactor allweddol a oedd wedi cyfrannu at ddiffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd:

- cost model gweithredol y Bwrdd Iechyd gyda chyfleoedd i wella cynhyrchiant, lleihau costau sefydlog ac addasu maint gwasanaethau ysbytai i leihau dyblygu, amrywiad a gwasanaethau ar raddfa lai na'r hyn sy'n gynaliadwy; a
- chost galw clinigol o blith poblogaethau am wasanaethau nad yw'n cael ei esbonio'n ddigonol gan oedran poblogaeth y Bwrdd Iechyd.

65 Fe barhaodd y Bwrdd Iechyd â'i Raglen Drawsnewid yn ystod 2019-20, ac yn ogystal â'r fframwaith cyfleoedd a nodir ym mharagraff 57, mae wedi parhau i gryfhau ei reolaethau ariannol i leihau costau gweithredol. Cafodd cynllun gweithredu i gryfhau gafael a rheolaeth, gyda ffocws penodol ar gyflog, ei ddatblygu a'i fonitro trwy'r Pwyllgor Ariannol, er bod y camau gweithredu hyn bellach yn rhan o raglen waith ehangach sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithlu. Mae Strategaeth Iechyd a Gofal y Bwrdd Iechyd yn darparu'r ffocws angenrheidiol ar ostwng costau sefydlog ac addasu maint gwasanaethau ysbytai, er nad yw camau gweithredu i fynd i'r afael â galw clinigol uwch wedi dechrau eto.

66 Yn fwy cyffredinol, mae'r model partneriaid busnes cyllid bellach wedi ennill ei blwyf yn llawn o fewn y Bwrdd Iechyd gyda phartneriaid busnes wedi'u dyrannu i bob cyfarwyddiaeth, a thrwy'r cytundebau atebolrwydd, mae cyfrifoldeb cyllidebol dirprwyedig yn dal i fod yn ei le. Mae ein gwaith ar y cyfrifon blynyddol wedi parhau i ganfod bod gan y Bwrdd Iechyd reolaethau ariannol digonol, ac roedd y tîm cyllid mewn sefyllfa dda i gydymffurfio â'r terfyn amser diwygiedig ar gyfer y cyfrifon yn 2019-20. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwneud defnydd cadarnhaol o ddadansoddeg data i ddod â'r broses cau ariannol bob mis ymlaen, gan alluogi timau gweithredol i gael mynediad at wybodaeth ariannol wedi'i diweddaru ar ddiwrnod cyntaf y mis.

## Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu mecanweithiau eglur ar gyfer cofnodi a thracio gwariant COVID-19

67 Ar ddechrau’r pandemig, fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd un ganolfan gostau COVID-19 i hwyluso’r broses o adnabod yr holl gostau sy’n gysylltiedig â COVID-19 ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl caffael ar unwaith.

68 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, nid yw cytundebau atebolrwydd mewnol wedi cael eu dyroddi ond yn hytrach maent wedi cael eu disodli gan gynlluniau dirprwyo a llythyr cyflawni cyllid. Mae’r rhain yn nodi’r egwyddorion presennol o ran rheolaeth ariannol ac yn ailddatgan pwysigrwydd prosesau llywodraethu ariannol presennol. Mae’r llythyr hefyd yn nodi’r angen am gofnodi effaith ariannol COVID-19 yn gywir. Ategwyd hyn trwy sefydlu canolfannau costau COVID-19 ar gyfer pob cyfarwyddiaeth, gan gynnwys yr ysbytai maes. Ar y cyfan, mae 54 o ganolfannau costau COVID-19 wedi cael eu sefydlu i’w gwneud yn bosibl tracio’r holl gostau.

69 Mae’r partneriaid busnes wedi bod yn allweddol yn ystod y pandemig o ran craffu a herio ar lefel leol a sicrhau cysondeb ar draws y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â gwariant sy’n gysylltiedig â COVID-19. Mae logiau penderfyniadau yn eu lle ar draws pob maes gwariant. Lle mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn gyflym a bod y gwerthoedd dan sylw’n uwch na therfyn ariannol dirprwyedig yr aelodau o staff a awdurdododd benderfyniadau, mae partneriaid busnes wedi cydgrynhoi’r rhain ac mae cadarnhad a chymeradwyaeth wedi cael eu ceisio’n ddiweddarach. Mae’r holl benderfyniadau lle’r oedd gwariant yn uwch na £25,000 wedi cael eu monitro gan y Pwyllgor Cyllid a’u cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ynghyd ag ystyriaethau gwerth am arian.

## Mae’r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu o fewn rheolaethau ariannol presennol yn ystod y pandemig

70 Ym mis Mai 2020, cafodd y Bwrdd bapur a oedd yn nodi’r trefniadau llywodraethu ariannol yn ystod y pandemig, a’r ystyriaethau o ran gwerth am arian mewn perthynas â lefel y gwariant ar COVID-19. Roedd y papur yn nodi y byddai rheolaethau ariannol presennol a nodir yng Nghynllun Dirprwyo, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn berthnasol, heb yr angen i’w diwygio o gwbl. Fodd bynnag, roedd y papur yn cydnabod bod risg o dorri’r Rheolau Sefydlog ac y byddid yn ymdrin â hynny trwy amrywiadau y byddai’n ofynnol i’r Bwrdd eu cymeradwyo.

71 Mae Cynllun Dirprwyo’r Bwrdd yn caniatáu dirprwyo digonol ar gyfer y rhan fwyaf o bryniannau mawr, ond roedd cymeradwyaeth bellach yn digwydd trwy’r Drefn Reoli Aur a’r Bwrdd llawn os oedd angen. Roedd y defnydd o Weithredu gan y Cadeirydd ar gael hefyd ar gyfer unrhyw benderfyniad brys ar wariant sylweddol os oedd angen, er enghraifft gwariant ar gyfer sefydlu ysbyty maes, ond ychydig iawn o ddefnydd a fu ohono ar y cyfan.

72 Ar gyfer tri mis cyntaf 2020-21, bu gan y Bwrdd Iechyd fynediad at welyau ychwanegol mewn ysbytai annibynnol i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Cafodd y capasiti hwn ei gomisiynu ar sail Cymru gyfan gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ac fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

73 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid ymhlith yr awdurdodau lleol i sefydlu ei naw ysbyty maes, gan ddefnyddio cytundebau Trwydded i Feddiannu lle'r oedd yn briodol. Yn unol â chyfarwyddeb Llywodraeth Cymru, mae cyllid ar gyfer y costau hyn wedi llifo trwy'r Bwrdd Iechyd i'w bartneriaid ymhlith yr awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi comisiwn yn ddiweddar i KPMG i gynnal adolygiadau o ysbytai maes ar gyfer diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys y rhai a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ymateb i unrhyw gamau ar gyfer gwella a nodir gan yr adolygiad.

74 Yn ystod y pandemig bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhoddion a chyfraniadau elusennol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso'i Bolisi Safonau Ymddygiad i gofrestru rhoddion a chyfraniadau, er ei fod yn cydnabod bod y nifer wedi achosi heriau o ran cynnal log canolog. Mae rhoddion a ddaeth i law'n ganolog wedi cael eu cofnodi, a lle y bo'n bosibl mae'r Bwrdd Iechyd wedi hybu'r defnydd o Amazon Wishlist i gyflwyno rhoddion. Mae cyfraniadau ariannol wedi cael eu cyfeirio trwy gronfa elusennol y Bwrdd Iechyd ac mae proses ystwyth ond cadarn wedi cael ei mabwysiadu i ddyrannu'r arian i wasanaethau rheng-flaen.

75 Mae trefniadau atal twyll rheolaidd wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig. Er bod yr arbenigwr atal twyll lleol wedi ymgymryd â swydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, rhoddodd gymorth parhaus i'r Bwrdd Iechyd pan oedd y pandemig ar ei anterth tra bo'r broses o benodi arbenigwr atal twyll lleol yn yr arfaeth.

## Monitro ac adrodd

### Mae trefniadau adrodd cynhwysfawr wedi cefnogi craffu a sicrwydd amserol ar y sefyllfa ariannol trwy gydol y pandemig

76 Yn ystod y pandemig, mae'r Bwrdd wedi cynnal goruchwyliaeth gadarn ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi parhau i weithredu'n fisol, gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael adroddiadau amserol ar gyfer pob un o'u cyfarfodydd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid hefyd wedi cynnal cyswllt â'r Cyfarwyddwr Cyllid yn bythefnosol.

77 Mae dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol ac effaith COVID-19 ar draws y cyfarwyddiaethau ac ar sail y bwrdd iechyd cyfan wedi cael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor Cyllid. Cyflwynir hwn wedyn i'r Bwrdd trwy adroddiadau'r Pwyllgorau, sy'n nodi tueddiadau o un mis i'r llall ar draws ystod o fesurau i helpu'r Bwrdd i fonitro'r sefyllfa ariannol a'i dracio dros amser. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi'n glir beth yw'r risgiau i allu'r Bwrdd Iechyd i gyrraedd ei darged arbedion a rheoli gwariant.

78 Ar lefel weithredol, cafodd cyfarfodydd Dwyn i Gyfrif y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwaith Trawsnewid eu hatal ar ddiwedd 2019-20. Mae'r partneriaid busnes cyllid wedi parhau i fod â goruchwyliaeth yn ystod y pandemig ond wrth i'r Bwrdd Iechyd ddechrau symud i mewn i'r cyfnod adfer, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid wedi sefydlu cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu â systemau gyda chyfarwyddiaethau. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u bwriadu i helpu i ddeall y camau gweithredu y mae cyfarwyddiaethau'n ceisio'u cymryd i adfer, gan gynnwys ffocws ar arbedion, yn ogystal ag adnabod cyfleoedd lle gall y tîm Gweithredol helpu i hwyluso gwelliant.

# Cynllunio gweithredol

79 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau hanfodol eraill a chyflawni swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

80 Canfuom fod **cynlluniau gweithredol yn cael eu goleuo gan arferion modelu data cryfach, ac ymrwymiad i ymgysylltu â rhanddeiliaid, datrysiadau rhanbarthol a lles staff, gyda threfniadau eglur ar gyfer monitro perfformiad a gweithgarwch cyflawni. Fodd bynnag, mae ail frig COVID-19 yn achosi risg sylweddol i drefniadau'r gweithlu.**

## Datblygu'r cynllun

### Mae cynlluniau gweithredol yn cefnogi dull hyblyg o ran adferiad gwasanaethau ac mae'r Grŵp Llywio Trawsnewid yn defnyddio gwersi o'r pandemig i gyflymu gweithgarwch i gyflawni'r strategaeth

#### Aeth y Bwrdd Iechyd ati'n gyflym i ddatblygu cynlluniau chwarterol gyda hynny'n cael ei arwain gan randdeiliaid a dull modelu data sy'n datblygu'n gyflym

81 Mae cynlluniau wedi cael eu datblygu yn unol â Fframwaith Gweithredu diwygiedig GIG Cymru. Fe weithiodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym ac yn effeithiol gyda'i Fwrdd i ddatblygu cynlluniau chwarterol. Fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar amser. Roedd terfyn amser cyflwyno Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarter un yn gynharach na chyfarfod y Bwrdd. Cyflwynwyd y cynllun drafft i bwyllgorau allweddol a'r Drefn Reoli Aur. Fe alluogodd hyn aelodau'r Bwrdd i wneud sylwadau a herio cyn bod y Cadeirydd yn ei gymeradwyo a bod cadarnhad ôl-weithredol yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Cyflwynwyd y fersiwn drafft o gynllun chwarter dau i'r Bwrdd yn un o seminarau'r Bwrdd ym mis Mehefin, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mehefin. Cymeradwywyd cynllun chwarter dau wedyn gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020.

82 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu a chydweithio gyda rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod hwn i oleuo cynlluniau chwarterol. Er enghraifft:

- mae cynlluniau'n diffinio risgiau a datrysiadau rhanbarthol fel rhan allweddol o gynllunio ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol y Bwrdd Iechyd;
- roedd y Cyngor Iechyd Cymuned yn bresennol ac fe gyfranogodd yn llawn yn seminar y Bwrdd ar gyfer cynllun chwarter dau; ac
- fe wnaeth trafodaethau gyda phartneriaid lleol trwy'r Grŵp Cyflawni Iechyd a Gofal hi'n bosibl dargyfeirio'r Gronfa Gofal Integredig i allu darparu ysbytai maes (fel a nodir ym mharagraff 22).

83 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i adborth Llywodraeth Cymru. Roedd yr adborth yn dynodi bod diffyg manylder yng nghynllun chwarter un mewn perthynas â gwahanol senarios a'u goblygiadau. Ers hynny, mae cell fodelu'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'n gyflym i ddatblygu ei gallu i ddadansoddi effaith newidiadau ar draws ystod o ffactorau, gan ei gwneud yn bosibl llunio rhagolygon mwy cywir a chynllunio mewn modd mwy gwybodus.

84 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu golwg fwy cynhwysfawr ar y capasiti ychwanegol ar gyfer gofal heb ei drefnu ac ymchwydd yn y galw dros y gaeaf nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 y gall fod ei angen i reoli lefelau arferol o alw yn y gaeaf pan fo gweithgarwch COVID-19 yn mynd rhagddo. Mae cynllun chwarter dau yn cynnwys cynlluniau wedi'u diweddaru ar gyfer capasiti yn y GIG i ymateb i

ymchwydd yn y galw yn seiliedig ar y tybiaethau modelu diweddaredig a'r gofynion ar gyfer ysbytai maes a chyfleusterau yn y sector annibynnol.

### Mae gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal a gwasanaethau rheolaidd yn cael eu hailgychwyn mewn ffordd bwyllog a hyblyg

85 Mae cynllun chwarter dau y Bwrdd Iechyd yn dynodi bod yr holl wasanaethau hanfodol, yn ôl y diffiniad yn y fframwaith, yn cael eu darparu ar draws holl wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Ei fwriad yw sicrhau bod ganddo'r gweithlu a'r seilwaith i ymateb i senarios COVID-19 yn y dyfodol a all olygu bod angen capasiti ychwanegol i ymateb i ymchwydd yn y galw. Hefyd, i alluogi datrysiadau cymunedol sy'n mynd i'r afael â'r twf mewn gweithgarwch cymunedol fel a brofwyd yn ystod chwarter un, boed yn ddarpariaeth reolaidd neu drwy wardiau rhithwir gofal canolradd.

86 Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu ailgychwyn gwasanaethau a pharhau â gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae cynlluniau gwasanaethau'n rhoi blaenoriaeth i'r cleifion hynny sy'n wynebu'r risg glinigol fwyaf. Er enghraifft, cleifion, a chleifion allanol, canser ac offthalmoleg.

87 Mae'r dull o adfer gwasanaethau rheolaidd yn bwyllog a hyblyg, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar arferion gweithio diogel ar gyfer adeiladau'r GIG er mwyn lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo COVID-19 yn y gweithle. Mae rhai timau ac adrannau wedi dechrau gwerthuso eu hamgylcheddau gwaith yng ngoleuni canllawiau Llywodraeth Cymru, tra bo eraill wedi dangos eu bod eisoes yn cydymffurfio â chryn dipyn ohonynt. Mae sawl ffynhonnell cymorth ar gael i'w helpu i gwblhau'r broses, gan gynnwys gan adrannau Iechyd a Diogelwch, Atal a Rheoli Heintiau, rheolwyr, ac Ystadau.

88 Mae angen i'r gwerthusiad gael ei gwblhau mewn ardaloedd clinigol ac anghlinigol cyn y gall y Bwrdd Iechyd gydlynu a blaenoriaethu'r defnydd o fesurau rheoli ar draws timau ysbytai, cymunedol a gofal sylfaenol. Er enghraifft:

- gosod sgriniau Persbecs pwrpasol;
- addasu llwybrau gofal o gynnwys defnydd o opsiynau digidol yn lle cyswllt wyneb yn wyneb;
- ei gwneud yn bosibl cadw pellter cymdeithasol mewn ardaloedd clinigol ac anghlinigol, a allai olygu bod angen lleihau niferoedd gwelyau mewn rhai ardaloedd; a
- gosod arwyddion cadw pellter cymdeithasol sy'n cydymffurfio â'r safon a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

89 Yn ddieithriad, bydd y dull a ddefnyddir i adfer gwasanaethau rheolaidd yn golygu y bydd angen i lawer o gleifion aros i gael eu gofal. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i gysylltu â phob claf yn unigol i egluro'r rhesymau dros yr oedi, sut i

hunan-reoli eu cyflwr, camau y dylent eu cymryd os bydd eu cyflwr yn gwaethygu ac i gadarnhau bod y driniaeth arfaethedig yn dal yn angenrheidiol.

### Mae'r Grŵp Llywio Trawsnewid newydd yn adeiladu ar y gwersi o'r pandemig i gyflymu gweithgarwch i gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal

90 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ailystyried y trefniadau cyflawni ar gyfer ei Strategaeth Iechyd a Gofal a chydnabod bod profiad pandemig COVID-19 yn cynnig cyfle i newid ei ddull. Fe arweiniodd hyn at newidiadau i'r Grŵp Adfer, Dysgu ac Arloesi a sefydlwyd fel rhan o'r strwythur Gorchymyn a Rheoli, fel a nodir ym mharagraff 31, a sefydlu'r Grŵp Llywio Trawsnewid wedi hynny. Yn ogystal â'i rôl yn yr adferiad a fydd yn digwydd ar unwaith, mae'r grŵp wedi cael ei sefydlu er mwyn:

- dysgu o'r pandemig a'r ymateb iddo;
- trosi'r gwersi'n arferion i'w rhoi ar waith; a
- thrawsnewid gwasanaethau dros oes y Strategaeth Iechyd a Gofal.

91 Ym mis Gorffennaf 2020, fe gynhyrchodd y Grŵp Llywio Trawsnewid ei Adroddiad Darganfod Strategol cyntaf i nodi gwersi cychwynnol o'r ymateb i'r pandemig y gellir eu rhoi ar waith i gyflymu gweithgarwch i gyflawni'r Strategaeth Iechyd a Gofal. Fe wnaeth y Bwrdd awdurdodi'r newidiadau arfaethedig o ganlyniad i'r gwersi a oedd yn cael eu nodi yn yr adroddiad. Trwy ei weithgarwch mewnol ei hun i ymgysylltu â staff, nododd y Bwrdd Iechyd ystod o bethau sydd wedi gweithio'n dda, gan gynnwys:

- gweledigaeth gyffredin, nodau a rennir a grymuso ac annibyniaeth i weithredu;
- hyblygrwydd y gweithlu, diwylliant o fod yn hyderus, a chyfeillgarwch;
- gweithio'n ddigidol a defnyddio gofal seiliedig-ar-dechnoleg;
- gwasanaethau a llwybrau wedi'u hailstrwythuro ynghyd â gweithio mewn partneriaeth mewn modd cydweithredol, integredig.

92 Yn yr un modd, canfu bethau nad oeddent wedi gweithio cystal, megis:

- diffyg mynediad at ddata amserol a'r effaith negyddol ar gynllunio a phenderfyniadau;
- pwysau o ran y gweithlu'n amlygu bylchau yn y gweithlu a thimau heb ddigon o adnoddau;
- cynllunio strategol cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fawr fel y pandemig;
- penderfyniadau byrbwyll i atal gwasanaethau rheolaidd ac arafwch y broses o'u hailgychwyn;
- effaith bosibl newidiadau ar gleifion; a
- rheolaethau a diwydrwydd dyladwy cyfyngedig yn arwain at risgiau, yn enwedig ymddygiadau anghonfensiynol dilyffethair.

93 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar wersi o ffynonellau eraill ledled y byd. Bydd y Grŵp Llywio Trawsnewid yn dod â syniadau newydd i'r Bwrdd yn rheolaidd am wasanaethau, newidiadau gweithredol, a threfniadau sefydliadol.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i les staff gyda datrysiadau a modelu adnoddau'n helpu i oleuo cynlluniau, er bod staffio'n risg sylweddol os ceir ail frig

#### Mae datrysiadau rhanbarthol yn cael eu hystyried ar gyfer ysbytai maes ac ar gyfer nifer o wasanaethau, tra bo modelu'r galw'n fwy manwl yn helpu i oleuo cynlluniau adnoddau

94 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau rhanbarthol, yn arbennig trwy adeiladu ar y berthynas gref â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Yn chwarter dau bydd y ffocws yn cynnwys archwilio opsiynau ar gyfer datrysiadau rhanbarthol i ddarparu ysbytai maes, gyda dull blaenoriaethu ar y cyd o ran gwelyau rhanbarthol, model rhanbarthol ar gyfer y gweithlu a chydwasanaethau mewn nifer o feysydd arbenigol eraill. Mae'r byrddau iechyd sy'n gwasanaethu canolbarth Cymru hefyd yn cydweithio ar ddarparu gwasanaethau i sicrhau bod llif cleifion yn cael ei gynnal.

95 Mae'r gell fodelu wedi gwneud gwaith manwl i ragweld y galw am driniaethau heb eu trefnu ymlaen llaw ar gyfer y gaeaf sydd i ddod. Mae hyn yn rhoi cymorth i ddatblygu rhagolygon ar gyfer y galw sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac nad yw'n gysylltiedig â COVID-19 am welyau mewn ysbytai presennol ac mewn ysbytai maes i oleuo cynllun chwarter tri. Mae'r gell hefyd wedi datblygu model ar gyfer y galw sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y gymuned i gynorthwyo timau cymunedol y Bwrdd Iechyd i gynllunio gwasanaethau ac mae'n gweithio ar fodel "rhagolygon agos ati" mwy cywir i wella cywirdeb ei ddadansoddiad o gapasiti swyddogaethol byrdymor. mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cynyddu argaeledd y gweithlu i'r eithaf ac mae'n ymwybodol o ffactorau a allai gyfyngu ar gynhyrchiant megis cadw pellter cymdeithasol, yr angen i gynnal lefelau staffio o fewn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), a'r angen i allu staffio meysydd lle ceir ymchwydd yn y galw yn ddiogel.

#### Mae'r Bwrdd Iechyd yn hynod ymrwymedig i gefnogi lles staff er bod staffio'n dal i fod yn risg sylweddol os ceir ail frig mewn COVID-19

96 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau'r gweithlu mewn ymateb i'r heriau enfawr a achosir gan y pandemig. Mae'r mesurau a gymerwyd yn cynnwys:

- ymgyrch recriwtio sylweddol a arweiniodd at gynnydd o 912 o aelodau cyfwerth ag amser cyflawn (CagAC) yn y gweithlu;

- adrodd yn ddyddiol ar gyfraddau salwch staff;
- hwyluso trefniadau gweithio o bell i gefnogi gofynion gwarchod a chadw pellter cymdeithasol;
- adleoli staff i gefnogi gwasanaethau rheng-flaen neu i ddiogelu staff a oedd yn wynebu risg; a
- chreu timau hyblyg ar gyfer anghenion critigol a ragwelir ar adegau o ddwysâd. Er enghraifft:
  - 'banc corffdai' o borthorion sydd wedi'u hyfforddi mewn sgiliau craidd i gefnogi pob sir; a
  - thîm ymateb yn gyflym ar gyfer gwaith glanhau a rheoli heintiau ar draws y siroedd ar gyfer cartrefi gofal, ysgolion, ysbytai maes a.y.b.

97 Er gwaethaf mesurau lliniarol, mae cyflenwad ac argaeledd y gweithlu'n risg allweddol i gyflawni ar gyfer y Bwrdd Iechyd wrth iddo ailgychwyn gwasanaethau, paratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf a chynllunio ar gyfer ail frig posibl mewn COVID-19. Caiff y risgiau, camau gweithredu presennol a mesurau lliniarol pellach o ran y gweithlu eu nodi yng nghynllun chwarter dau ac maent yn gyson â Strategaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer y Gweithlu. Maent yn cynnwys:

- analluu i roi cymorth lles seicolegol priodol i staff;
- diffyg hyfforddwyr a dim digon o hyfforddiant i baratoi staff newydd;
- cyflogeion newydd heb ddigon o wybodaeth, sgiliau neu brofiad; a
- staff newydd yn terfynu eu contractau cyflogaeth byrdymor ar ddiwedd y cyfnod penodedig.

98 Mae staff â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes yn cael asesiadau risg, gan ddefnyddio'r offeryn Asesu Risg COVID-19 cenedlaethol a fabwysiadwyd yn dilyn ei roi ar waith ledled Cymru gyfan. Mae Tîm y Gweithlu wedi cysylltu â'r holl reolwyr i amlygu ei bod yn bwysig iawn i staff gwblhau'r asesiad risg, yn enwedig y rhai y nodwyd eu bod yn Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Gallai rhai o'r aelodau hynny o staff fod yn gyndyn o gwblhau'r asesiad ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda chynrychiolwyr staff sy'n Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i'w hannog i'w gwblhau ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Mae'r Adroddiad Diweddaru ar y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar gyfer y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Gorffennaf 2020 yn cynnwys:

- nifer y rheolwyr a ymatebodd i'r broses;
- nifer y staff a gwblhaodd asesiadau; a
- chrynodeb o ddeilliannau'r asesiadau.

99 Nid yw rhai aelodau o staff yn gallu gweithio mewn ardal lle ymdrinnir â chleifion. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r Bwrdd Iechyd yn argymell eu bod yn gweithio gartref neu mewn ardal anghlinigol, gan ddefnyddio telefeddygaeth a phlatfformau TG sydd ar gael.

100 O'r dechrau un, mae'r Cadeirydd wedi bod yn hyrwyddo lles seicolegol staff. Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Lles Seicolegol Staff ar ddiwedd mis Mawrth

2020 i gefnogi staff trwy’r pandemig. Mae wedi cael ei ddiweddaru ddwywaith i sicrhau ei fod yn ymateb i wersi o brofiad staff, ac i unrhyw ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru sy’n cael effaith ar drefniadau gweithio.

101 Mae timau hefyd wedi cael eu dwyn ynghyd i gynyddu i’r eithaf yr hyn sydd ar gael i gefnogi staff. Fe wnaeth y galw am gymorth cwnsela leihau ar ôl y brig cyntaf o COVID-19 ond yn ystod mis Mehefin fe gynyddodd nifer y ceisiadau i nifer uwch nag erioed. Ceir cydnabyddiaeth i’r angen i fynd i’r afael â’r heriau y mae staff wedi’u profi o ganlyniad i’r angen i weithio gartref, gan gynnwys teimladau o fod wedi’u hynysu, rhwystredigaethau gyda thechnoleg a phwysau rheoli’r drefn o weithio gartref. Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig hyfforddiant i’w helpu i ddygymod â’r ansicrwydd a’r galwadau a grëwyd gan y pandemig.

102 Mae arolwg a dadansoddiad thematig o brofiad staff yn helpu’r Tîm Lles Seicolegol Staff i ymateb i anghenion sy’n dod i’r amlwg. Mae negeseuon am les seicolegol yn cael eu cynnwys ddwywaith yr wythnos yn y cyfathrebiad staff cyfan, ac mae cerdyn wedi cael ei anfon at yr holl staff i ddiolch iddynt am eu cyfraniad yn ystod y pandemig. Mae tudalen wedi’i neilltuo i COVID-19 ar y fewnrwyd ar gyfer lles seicolegol staff yn darparu dolenni i adnoddau amrywiol. Mae’r Tîm Iechyd Galwedigaethol yn rhoi cyngor a chymorth i reolwyr a staff ar brofi staff, asesiadau risg ar gyfer staff a materion sy’n ymwneud â hunan-ynysu a gwarchod.

103 I roi cymorth pellach, mae’r Bwrdd Iechyd wrthi yn awr yn ceisio ehangu ei ‘Fannau Gwrando’ gyda rhwydwaith o hwyluswyr, cynnig Rhaglen Meithrin Cydnerthedd a threfnu bod adnoddau a chymorth ychwanegol ar gael i reolwyr.

## Monitro’r modd y cyflawnir y cynllun

### Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal goruchwyliaeth dda ac wedi bod yn craffu’n dda ar berfformiad a chyflawni ond mae angen iddo gynyddu ei ffocws ar bedwar cwadrant niwed

104 Er bod y gofynion monitro perfformiad cenedlaethol wedi cael eu hatal i raddau helaeth, mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal goruchwyliaeth ar berfformiad a’r effaith y mae COVID-19 wedi’i chael ar ddarparu gwasanaethau.

105 Ym mis Mai 2020, cynhyrchwyd Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig (IPAR) diwygiedig a oedd yn canolbwyntio’n bennaf ar ofal heb ei drefnu, canser, gofal llygaid, imiwneiddiadau i blant a pherfformiad ariannol. Cyflwynwyd adran COVID-19 newydd hefyd. Er bod yr angen i gyflwyno data’n genedlaethol wedi cael ei atal dros dro, adroddwyd hefyd ar ddata ar gyfer ystod o ddangosyddion eraill a darparwyd crynodeb yn yr IPAR.

106 Mae’r IPAR wedi cael ei ehangu ers hynny i adlewyrchu cynlluniau chwarterol. Cyflwynwyd IPAR diwygiedig i’r Bwrdd ym mis Mehefin 2020 a oedd yn dynodi pa un a oedd perfformiad yn gyson â’r cynlluniau, a’r camau gweithredu a oedd i fod i gael eu cymryd. Ar gyfer mis Gorffennaf 2020, ychwanegwyd adran ychwanegol

hefyd i dracio'r modd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r fframwaith gwasanaethau allweddol.

107 Bydd elfennau allweddol o ran ansawdd a diogelwch yn y fframwaith gwasanaethau hanfodol yn cael eu monitro ymhellach gan y Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Sicrhau Perfformiad a bydd unrhyw bryderon yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Bydd unrhyw eithriadau a nodir yn y cyfarfodydd hyn yn cael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd. Hyd yma, fodd bynnag, nid yw'r fframwaith adrodd ar berfformiad wedi darparu sicrwydd ynghylch y pedwar cwadrant niwed a nodir yn Fframwaith Gweithredol GIG Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid wrthi ar hyn o bryd yn ailddatblygu'r fframwaith perfformiad a fydd yn amcanu at gynnwys y pedwar cwadrant niwed.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.